

Reflections on two visits to Mametz Wood 1916 & 1984

Shattered trees and tortured earth
The acrid stench of decay
Of mangled bodies lying around
The battle not far away.
This man made devastation
Does man have no regrets?
Does he pause to ask the question?
Will the birds sing again in Mametz?

This Welsh lad lying near my feet
With blood matted auburn hair,
Was his father proud when he went to the war?
Did his mother shed a tear?
Did he leave a girl behind him?
Did he leave a girl behind him?
Awaiting the postman's knock,
Oh, the sadness when they learn of his death,
Dear God, help them to bear the shock.

That German boy, his bowels astrew
Fought for his Fatherland,
That he fought to the end is obvious
A stick bomb is still in his hand.
Did he hate us as much as we thought?
Was our enmity so just,
On his belt an insignia, 'GOD MIT UNS',
Did not the same God favour us?

As far as the eye can see
Dead bodies cover the earth,
The death of a generation
Condemned to die at birth,

When comes the day of reckoning
Who will carry the can?
For this awful condemnation,
Of man's inhumanity to man!

.....

What a wondrous pleasant sight
Unfolds before my eyes,
A panoply of magnificent trees
Stretching upwards to the skies,
Did someone help Dame Nature?
The sins of man to forget,
Where once there was war, now peace reigns supreme,
And the birds sing again in Mametz.

Harry Fellows

THE CAPTURE OF *MAMETZ* WOODS.

'Twas a glorious July morning,
And one I shall never forget,
When, with but a few hours' warning,
We were told the wood to get.

That night we slept out in the open,
Our thoughts went to those at home:
To mothers and fathers and brothers,
And loved ones far over the foam.
At daybreak that beautiful morning
Our troops advanced to the fray,
Just as the light was dawning-
The light of another day.
We charged the wood like madmen;
My God! what a charge we made;
The observers who watched behind us
Said 'twas better than on parade.
There was many a Garw boy felt that morn,
With never a thought of fear.
It never seemed to cross their minds
That for them the end was near.
There are plenty of names I could mention,
But one I shall always revere,
And that's brave Captain Lawrence,
The tried old Fusilier.

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

You have heard of the deeds of others-
Deeds that have never been hid,
But why so very little of what The *Welsh* Division did?

Pte. SYDNEY HATHERELL, 1 Lower Church St., Pontycymmer

25 Awst 1916

The Glamorgan Gazette

Gwybodaeth athrawon

MAMETZ WOOD

We reached that dread inferno. And stormed the gates of hell.
Why wonder when I tell you, we all went, sort of mad.
But yet took pity on the Huns, crying 'Mercy, karmerad,"
For tho' we all remembered the brutal deeds they'd done.
We deigned to show them mercy, tho' they had shown us none.
We fought as Britons always do, the only way we know.
A clean, fair fight, with right as might, no matter who the foe.
So we battered them. and shattered them, until the wood was won,

The Cambria Daily Reader

17 Gorffennaf 1917

MAMETZ WOOD

Y CYMRY YN CYMERYD Y COED

Daeth adre'n y plygain o faes y gyflafan,
A'i gallon mor gynnes a bu hi erioed,
Daeth adre i'w frodir o waew'r Cyfandir,
Daeth adre'n ddiangol o "Frwydr y Coed."

O lawnder ei galon adroddodd yr hanes,
Am frwydr galetaf ymladdwyd erioed,
Am fechgyn o Gymru yn codi tan ganu
I ymlid y gelyn o'i ffau yn y coed.

Daeth atom i'r ffosydd frysneges Maeslywydd
I hwylio ein harfau ar frys, yn ddioed,
Ac ebe'r gorchymyn, "Rhaid symud y gelyn,
A'i erlid o'i loches, draw acw'n y Coed."

Y nos a enciliodd, a'r bore a wawriodd,
Y bore rhyfeddaf a welsom erioed,
A ni yn y ffosydd yn disgwyl yn eofn
Y gair i ymosod a chymryd y Coed.

"Chwi fechgyn o Gymru," medd Swyddog y gadlu,
"Rhaid heddyw ymdrechu'n fwy chwyrn nag erioed,
Aed pob un i weddi ar Dduw ei rieni,
Rhaid ymladd hyd farw, rhaid cymryd y Ceed."

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Ar hyn dyma'r bechgyn yn tarro hen emyn
Ar alw Gymreigaidd, mor ber ac erioed,
A'r canu rhyfeddaf, ie'r canu dwyfolaf,
Oedd canu y bechgyn cyn myned i'r Coed.

Yn swm taranfolltau, ergydion magnelau,
Cychwynodd y Gatrawd mor ddewr ac erioed,
A thân y gelynion ddisgynai yn greulon,
A'r glewion lu'n syrthio cyn cyrraedd y Coed.

Ar ol brwydr gwlaedlyd, ac ymladd dychrynlyd,
Enillwyd y frwydr galetaf erioed,
Ond beth am yr ingoedd pan gofier am gannoedd
O feddau dienw wrth odre y Coed.

Os canu yr emyn a ddarfu i'r bechgyn
Cyn marw'n y frwydr galetaf erioed,
Yn Seion yn canu yn rhydd o'i treialon,
Mae'r bechgyn "Aeth Adref" o frwydr y Coed.

Yng Nghymru mae mamau a briw eu calonnau,
Sydd heddyw yn ddyfnach, mwy llym nag erioed,
Eu bechgyn glân, tirion, a sail eu gobeithion,
Mewn beddau estronol – pris ennill y Coed.

O Walia deg, wyla, a than wylo cofia

Gwybodaeth athrawon

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Dy feibion fu'n harddu dyn hanes erioed,
I oesoedd diderfyn clodforer dy fechgyn
Fu'n ymladd, fu farw, ym mrwydr y Coed.

Dinesydd Cymreig, dydd Mercher, Medi 25, 1918

Gwybodaeth athrawon

Brwydr y Coed

Daeth atom i'r ffosydd frysneges Maeslywydd

I hwyllo ein harfau ar frys – yn ddi-oed,

Ac ebr y gorchymyn: 'Rhaid symud y gelyn,

A'i erlid o'i loches, draw acw'n y Coed.'

Y nos a enciliodd, a'r bore a wawriodd,

Y bore rhyfeddaf a welsom erioed,

A ni yn y ffosydd yn disgwyl am rybudd

Sef gair i ymosod a chymryd y coed.

'Chwi fechgyn o Gymru,' medd swyddog y gadlu,

'Rhaid heddiw ymdrechu yn fwy nag erioed;

Aed pob un i weddi ar Dduw ei rieni:

Rhaid ymladd hyd farw – rhaid cymryd y coed.'

Ar hyn dyma'r bechgyn yn taro hen emyn

A'r alw Gymreigaidd mor bêr ag erioed,

A'r canu rhyfeddaf, ie'r canu dwyfolaf,

Oedd canu y bechgyn cyn cymryd y coed.

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Ar ôl brwydr gwaedlyd ac ymladd dychrynlyd

Enillwyd y frwydr galetaf erioed:

Ond rhwygwyd ein rhengoedd, a llanwyd yn lluoedd

Y beddau dienw wrth odre y coed.

'Un o'r Ffogydd'

'Un o'r Ffogydd' is a pseudonym. This version appeared in *Y Cymro* on 7 August 1918, but I've copied it from the anthology: Alan Llwyd & Elwyn Edwards (ed.) *Gwaedd y Bechgyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1989), p. 91.

A Dead Boche

To you who'd read my songs of War
And only hear of blood and fame,
I'll say (you've heard it said before)
"War's Hell!" and if you doubt the same,
Today I found in Mametz Wood
A certain cure for lust of blood:

Where, propped against a shattered trunk,
In a great mess of things unclean,
Sat a dead Boche; he scowled and stunk
With clothes and face a sodden green,
Big-bellied, spectacled, crop-haired,
Dribbling black blood from nose and beard.

Robert Graves

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Sospan Fach

(The Little Saucepan)

Four collier lads from Ebbw Vale
Took shelter from a shower of hail,
And there beneath a spreading tree
Attuned their mouths to harmony.

With smiling joy on every face
Two warbled tenor, two sang bass,
And while the leaves above them hissed with
Rough hail, they started 'Aberystwyth'.

Old Parry's hymn, triumphant, rich,
They chanted through with even pitch,
Till at the end of their grand noise
I called: 'Give us the "Sospan" boys!'

Who knows a tune so soft, so strong,
So pitiful as that 'Saucepan' song
For exiled hope, despaired desire
Of lost souls for their cottage fire?

Then low at first with gathering sound
Rose their four voices, smooth and round,
Till back went Time: once more I stood
With Fusiliers in Mametz Wood.

Fierce burned the sun, yet cheeks were pale,
For ice hail they had leaden hail;
In that fine forest, green and big,
There stayed unbroken not one twig.

They sang, they swore, they plunged in haste,
Stumbling and shouting through the waste;
The little 'Saucepan' flamed on high,
Emblem of hope and ease gone by.

Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Rough pit-boys from the coaly South,
They sang, even in the cannon's mouth;
Like Sunday's chapel, Monday's inn,
The death-trap sounded with their din.

* * * * *

The storm blows over, Sun comes out,
The choir breaks up with jest and shout,
With what relief I watch them part---
Another note would break my heart!

Robert Graves

Ysgrifennwyd y cerddi
hyn ryw bryd ar ôl
Brwydr Coed Mametz

Aftermath

Have you forgotten yet?...

For the world's events have rumbled on since those gagged days,
Like traffic checked while at the crossing of city-ways:
And the haunted gap in your mind has filled with thoughts that flow
Like clouds in the lit heaven of life; and you're a man reprieved to go,
Taking your peaceful share of Time, with joy to spare.
But the past is just the same--and War's a bloody game...
Have you forgotten yet?...
Look down, and swear by the slain of the War that you'll never forget.

Do you remember the dark months you held the sector at Mametz--
The nights you watched and wired and dug and piled sandbags on parapets?
Do you remember the rats; and the stench
Of corpses rotting in front of the front-line trench--
And dawn coming, dirty-white, and chill with a hopeless rain?
Do you ever stop and ask, 'Is it all going to happen again?'

Do you remember that hour of din before the attack--
And the anger, the blind compassion that seized and shook you then
As you peered at the doomed and haggard faces of your men?
Do you remember the stretcher-cases lurching back
With dying eyes and lolling heads--those ashen-grey
Masks of the lads who once were keen and kind and gay?

Have you forgotten yet?...

Look up, and swear by the green of the spring that you'll never forget.

Siegfried Sassoon, March 1919. *Picture Show* (Heinemann, 1919)

Mametz Wood

For years afterwards the farmers found them –
the wasted young, turning up under their plough blades
as they tended the land back into itself.

A chit of bone, the china plate of a shoulder blade,
the relic of a finger, the blown
and broken bird's egg of a skull,

all mimicked now in flint, breaking blue in white
across this field where they were told to walk, not run,
towards the wood and its nesting machine guns.

And even now the earth stands sentinel,
reaching back into itself for reminders of what happened
like a wound working a foreign body to the surface of the skin.

This morning, twenty men buried in one long grave,
a broken mosaic of bone linked arm in arm,
their skeletons paused mid dance-macabre

in boots that outlasted them,
their socketed heads tilted back at an angle
and their jaws, those that have them, dropped open.

As if the notes they had sung
have only now, with this unearthing,
slipped from their absent tongues.

Owen Sheers, 2005

'In Parenthesis' by David Jones

Faber and Faber (2014).

p. 30

'Far thuddings faintly heard in the stranger-world: where the road leads, where no man goes, where the straight road leads; where the straight road leads; where the road had led old men asleep on wagons beneath the green, girls with baskets, linen-palled, children dawdling from the Mysteries on a Sunday morning.'

p.42

'Lance-Corporal Lewis sings where he walks, yet in a low voice, because of the Disciplines of the Wars. He sings of the hills about Jerusalem, and of David of the White Stone.'

p.46

'Metalled eyelet hole in waterproof pall hanging glides cold across your upward tilted cheek with that carrying party's unseen passing – the small of iodine hangs about when it's used so freely.'

p.67

'His eyes turned again to where the wood thinned to separate broken trees; to where great strippings-off hanged from tenuous fibres swaying, whitened to decay – as swung immolations...'

p.98

'No-man's-land whitened rigid: all its contours silver filigreed, as damascened. With the coming dark, ground-mist creeps back to regain the hollow places; across the rare atmosphere you could hear foreign men cough, and stamp with foreign feet.'

p.139

'They talked of ordinary things. Of each one's friends at home; those friends unknown to either of the other two. Of the possible duration of the war. Of how they would meet and in what good places afterwards. Of the dissimilar merits of Welshmen and Cockneys. Of the diverse virtues of Regular and Temporary Officers.'

Barddoniaeth a Llenyddiaeth

Bu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ysbrydoliaeth i lifeiriant o lenyddiaeth a barddoniaeth. Drwy ysgrifennu, roedd y milwyr yn mynegi eu hemosiynau, boed yn wladgarwch, arwriaeth ac edmygedd neu arswyd, dicter a thristwch. Cafodd nifer o adroddiadau llygad-dystion eu cofnodi hefyd.

Ymddangosodd *The Capture of Mametz Wood*, cerdd gan y milwr cyffredin Sydney Hatherell o Bontycymer, yn y *Glamorgan Gazette* ar 25 Awst 1916, ychydig wythnosau'n unig wedi'r frwydr.

Roedd yna hefyd nifer o awduron cydnabyddedig a fu'n gwasanaethu gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghoed Mametz a'r ardal gyfagos ac a gofnododd eu profiad. Yn eu mysgr roedd Siegfried Sassoon (1886-1967), Robert Graves (1895-1985), David Jones (1895-1974) a Llewelyn Wyn Griffith (1890-1977).

Roedd un o'r beirdd Cymraeg enwocaf, Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans, 1887-1917), hefyd yn gwasanaethu gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig er nad oedd yng Nghoed Mametz. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1917 am ei gerdd *Yr Arwr* ond cafodd ei ladd cyn y seremoni, a gynhaliwyd ym Mhenbedw. Rhoddwyd lliain du dros y gadair, a chaiff Hedd Wyn ei adnabod hyd heddiw fel 'Bardd y Gadair Ddu'.

That the prose of war should prove the truth of poetry's tale of man's feeling – that it should now be easy to believe that some of those magic lines were indeed a reflection of the real thoughts of real men and women – that was an astonishing discovery.

(Llewelyn Wyn Griffith)

Robert Graves (1895-1985)

Ymunodd Robert Graves â'r fyddin cyn gynted ag y cafodd rhyfel ei gyhoeddi. Wedi gorffen yn yr ysgol, roedd yn aros yn Harlech ac ymunodd â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Wrecsam. Roedd yn hyfforddi gyda nhw erbyn 11 Awst 1914 a bu'n gwasanaethu tan 1918.

Er ei fod yn gefnogol iawn i achos y rhyfel ar y dechrau, buan y defnyddiodd Graves ei farddoniaeth i ysgrifennu'n onest am arswyd pur rhyfela yn y ffosydd fel y'i gwelodd pan fu'n ymladd yn Ffrainc. Bu hefyd yn cwstyfnu propaganda rhyfel y cyfnod. Cyfarfu â bardd rhyfel arall a chydffilwr gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Siegfried Sassoon (1886-1967), a daethant yn ffrindiau. Cafodd y gerdd *A Dead Boche* ei chyhoeddi ym 1917. Mae'n cyfeirio'n uniongyrchol at ei brofiad o Frwydr Coed Mametz. Roedd *boche* yn air sarhaus a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf i ddisgrifio milwr Almaenig.

Ar 19 Gorffennaf 1916 cafodd Graves ei glwyfo'n ddrwg yn ei frest a'i ysgyfaint a chyhoeddodd llawfeddyg ei fod yn farw. Daeth ato'i hun a llwyddodd i ddarllen adroddiad am ei farwolaeth ei hun yn y *Times*. Cafodd ei hunangofiant *Goodbye to All That* ei gyhoeddi ym 1929 a bu ymateb brwd i'r gyfrol. Ynddi mae Graves yn cynnwys disgrifiad damniol o'i brofiadau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Siegfried Sassoon (1886-1967)

Ymunodd Siegfried Sassoon â'r fyddin yn Awst 1914, ar y diwrnod y cyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn yr Almaen. Trosglwyddodd i 3ydd Bataliwn (milwyr arbennig wrth gefn) y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig fel is-lefftenant ym Mai 1915.

Bu ei fataliwn yn ymladd yng Nghoed Mametz a'r ardal gyfagos. Roedd Sassoon yn cael ei ystyried yn filwr hynod o ddewr a gwrol. Ymosododd heb gymorth ar safle Almaenig mewn ymgais i gael gwared ar saethwr cudd, a chafodd ei anrhydeddu â'r Groes Filwrol ym 1916.

Yn dilyn ei brofiadau o greulondeb rhyfel, newidiodd barddoniaeth Sassoon o'i arddull gynnar eglur a gosgeiddig. Dechreuodd ysgrifennu am y realiti arswydus – y cyrff marw'n pydru a'r budreddi – a oedd yn amgylchynu'r milwyr. Roedd yn defnyddio coegni'n aml a doedd ganddo ddim ofn bod yn blwmp ac yn blaen yn ei farddoniaeth, fel yn y gerdd *Aftermath* (1919) sydd yn cyfeirio at brofiad Sassoon yng Nghoed Mametz. Yn ei hunangofiant *Memoirs of an Infantry Officer* aeth ati i gyfleu'r golygfeydd brawychus a ffyrnig a welodd, er mwyn herio dealltwriaeth y cyhoedd o brofiadau milwyr ar faes y gad.

David Jones (1895-1974)

Ar 2 Ionawr 1915 ymrestrodd David Jones fel milwr cyffredin ym 15fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Roedd Jones wedi treulio pedair blynedd yn astudio yn Ysgol Gelf Camberwell. Yn gynharach, roedd ei dad, a oedd yn Gymro, wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at David Lloyd George, er mwyn i'w fab ymuno â Chorfflu'r Fyddin Gymreig yr oedd Lloyd George yn ceisio'i sefydlu.

Bu David Jones yn ymladd ym Mrwydr Coed Mametz. Wrth symud ymlaen yn y tywyllwch drwy'r coed cafodd ei saethu yn ei goes. Gan na allai gerdded, dechreuodd grobian yn ôl tuag at y ffosydd Prydeinig, wedi iddo roi ei reiffl o'r neilltu oherwydd ei bod yn mynd yn sownd yn y llwyni ac yn ei rwystro rhag symud ymlaen. Ymhen hir a hwyr daeth cariwr stretsier o hyd iddo a'i gludo i ganolfan ddamweiniau dros dro, ddeng milltir y tu ôl i'r llinell. Dychwelodd i Brydain ar y llong gleifion St David a chafodd ei gludo i ysbyty yn Birmingham. Yn ddiweddarach dychwelodd i Ffrainc, ond cafodd ei anfon adref yn dioddef o dwymyn y ffosydd ym 1918.

Bu David Jones yn creu brasluniau tra roedd yn Ffrainc, gan sylwi ar y bobl a'r llefydd o'i gwmpas. Dechreuodd gyfansoddi *In Parenthesis*, cerdd a gafodd ei hysbrydoli gan ei brofiad, tua'r flwyddyn 1927, gan ei gorffen ym 1937. Yn ogystal â chyfeirio at drawma'i brofiadau yn y ffosydd, mae'r gerdd yn cynnwys cyfeiriadau o fytholeg, hanes a llenyddiaeth, gan gynnwys y Mabinogi.

Ar ôl y rhyfel daeth Jones yn un o artistiaid a beirdd modernaid pwysicaf yr 20fed ganrif. Daeth ei brofiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf, o fywyd yn y ffosydd ac yn arbennig ei brofiad yng Nghoed Mametz, yn un o'r prif ddylanwadau ar ei waith cymhleth a dyrys.

Llewelyn Wyn Griffith (1890-1977)

Cafodd Llewelyn Wyn Griffith ei eni yn Llandrillo-yn-rhos ac ymunodd â'r fyddin ym Medi 1914, gan dderbyn comisiwn ym 15fed Bataliwn (Bataliwn 1af Cymry Llundain) y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.

Yn gynnar yn y 1920au ysgrifennodd ddisgrifiad o'i brofiad yn y Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer ei gofiant, *Up to Mametz*, a gyhoeddwyd ym 1931. Mae ei ddisgrifiadau byw o'i brofiadau a'r hyn a welodd ym Mrwydr Coed Mametz yn adnodd hanesyddol pwysig a dirdynol.

Mae Griffith yn dwyn i gof farwolaeth ei frawd 19 oed Watcyn ym Mametz. Roedd Griffith yn uwchgaptan brigâd dros dro ac roedd wedi rhoi gorchymyn i'r swyddog negeseuon anfon neges er mwyn symud safle'r gynnu mawr. Cafodd y neges ei hanfon gan ei frawd, a oedd yn rhedwr. Cyrhaeddodd y neges ond cafodd Watcyn ei ladd gan ffrwydryn ar ei ffordd yn ôl.

"So I had sent him to his death, bearing a message from my own hand, in an endeavour to save other men's brothers."

Harry Fellows (1896 – 1987)

Nid oedd Harry Fellows yn un o filwyr Adran 38 (yr Adran Gymreig), ond yn hytrach un o Ffiwsilwyr Northumberland a aeth i Goed Mametz ar ôl yr ymladd. Gwelodd y llanast a bu'n rhaid iddo gladdu rhai o filwyr marw'r Adran Gymreig. Mae ei gerdd 'Mametz Wood 1916 and 1984' yn ymateb i safle'r frwydr ar y pryd a blynyddoedd yn ddiweddarach.

Owen Sheers (1974-)

Mae Owen Sheers wedi ennill gwobrau am ei waith fel bardd, nofelydd a dramodydd ac mae'n Athro Creadigrwydd ym Mhrifysgol Abertawe. Cafodd ei eni yn Fiji a'i fagu yn ne Cymru. Ym 1998 daeth Sheers ar draws y llyfr *Up to Mametz* gan Llewelyn Wyn Griffith. Teithiodd i safle'r frwydr er mwyn ymchwilio ymhellach i waith Griffith a gwaith David Jones, un yn swyddog a'r llall yn filwr cyffredin. Ym marn Sheers, *In Parenthesis* gan David Jones yw'r darn mwyaf diddorol a gafodd ei ysgrifennu o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi'r ymweliad hwn, ysgrifennodd y gerdd *Mametz Wood*, 2005, sydd yn disgrifio sut y mae ffermwyr heddiw, wrth aredig, yn dal i ddod ar draws gweddillion milwyr a gafodd eu lladd.

Yn 2014, mewn hen goetir ger Brynbuga, Sir Fynwy, perfformiodd Theatr Genedlaethol Cymru gynhyrchiad uchelgeisiol safle-benodol o *Mametz*, drama gan Sheers. Mae'r ddrama wedi'i seilio ar waith gafodd ei ysgrifennu gan y rhai fu'n ymladd neu a welodd y frwydr â'u llygaid eu hunain. Cafodd adolygiadau gwych, a daeth â stori rhai o'r milwyr fu'n ymladd ym Mametz i sylw cynulleidfa newydd, gyfoes.

'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau

Gwybodaeth athrawon

Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz
Tua 1917 Olew ar gynfas
Rhodd gan Syr a'r Fonesig A. Mitchelson



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*



'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*



Gwybodaeth athrawon

'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*



Gwybodaeth athrawon

'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*



Gwybodaeth athrawon

'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*



Gwybodaeth athrawon

'Uffern Rhyfel!' Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau



Christopher Williams, *Astudiaeth ar gyfer 'Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz'*

Gwybodaeth athrawon

